**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-783
Ein cyf/Our ref KW/02687/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

11 Rhagfyr 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr a ddaeth i law ar 29 Tachwedd ynghylch y ddeiseb sy'n gofyn am sicrhau cydraddoldeb i ysgolion cyfrwng Cymraeg a chydraddoldeb rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

O ran cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, rhaid i bob awdurdod lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru sy'n manylu ar sut y maent yn bwriadu cynllunio addysg Gymraeg a'i roi ar waith yn eu hardal. Amlinellir sut y dylent fynd ati i gynllunio hyn yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Bwriedir gosod set o reoliadau newydd gerbron y Cynulliad yn 2019. Mae'r adolygiad hwn o'r rheoliadau wedi cael ei ysgogi gan yr uchelgais a geir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Mae'n hanfodol ehangu addysg cyfrwng Cymraeg os ydym am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Dylai'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau arwain at fwy o ddarpariaeth o ran addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r targedau penodol a geir yn strategaeth *Cymraeg 2050*.

Dylid pennu'r cwricwlwm lleol yn y lle cyntaf yn ôl diddordeb y dysgwr a'r galw amdano. Dylai ysgolion a cholegau ddarparu cyfleoedd sydd yn rhoi buddiannau'r dysgwyr yn gyntaf, ac rydym yn disgwyl iddynt ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth wneud hyn. Oherwydd yr heriau gweithredol sy'n wynebu ysgolion, nid yw'n ymarferol rhedeg pob cwrs bob amser.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan edrych i’r dyfodol felly, mae sicrhau hawliau cyfartal i’r ddwy iaith yn ganolog i’r gwaith o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Rwy’n eich sicrhau bod anghenion penodol addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn wrth i drefniadau ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd, gan gynnwys y trefniadau asesu, gael eu datblygu.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education